# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET : 17/18-8

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| CAB/17-18/63 | Rhif Cofnod 100 | **Ansawdd Aer - Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru**<br>PENDERFYNWYD:<br>1. Cymeradwyo'r dasg o ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru;<br>2. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, a Chynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, er mwyn cychwyn y broses o gaffael ymgynghorydd arbenigol i ymgymryd â modelu manwl er | Galluogi Cyngor Caerdydd i fodloni gofynion Cyfarwyddyd Cyfreithiol Llywodraeth Cymru | | 28.03.18 | 29.03.18 | 11.04.18 | Y Prif Weithredwr |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET : 17/18-8

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | mwyn cefnogi'r astudiaeth ddichonoldeb, gan gynnwys cyflwyno dogfennaeth; ac ymdrin yn gyffredinol â phob agwedd ar y broses gaffael a materion ategol, hyd at a chan gynnwys dyfarnu contract;<br><br>3. Nodi'r cyhoeddiad o'r Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth ac Aer Glân a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w drafod. | | | | | | |
| CAB/17-18/64 | Rhif Cofnod 101 | **Gorsaf Fysus Caerdydd Canolog**<br>**Gorsaf Fysus Caerdydd Canolog**<br><br>***Mae atodiadau 1, 3, 4 a 5 i'r adroddiad hwn wedi eu heithrio rhag cael eu cyhoeddi gan eu bod yn*** | Ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i gytuno i ddull newydd o ddarparu project Gorsaf Fysus Ganolog newydd gan gynnwys yr awdurdod i ddirwyn i | | Ardystiodd y Swyddog Monitro y penderfyniad yn un brys oherwydd gallai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses gymeradwyo fod yn anfantais ddifrifol i'r Cyngor ac mae o fudd y cyhoedd dan Adran 13 o Reoliadau Gweithdrefn Craffu ac nid yw'r broses gymeradwyo'n berthnasol iddo. | | | Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET : 17/18-8

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ***cynnwys gwybodaeth o'r fath a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 14 a 21 o rannau 4 a 5 Atodiad 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.***<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>(1) Cymeradwyo, mewn egwyddor, cytundeb cydweithio Partneriaeth Darparu Metro fel y nodwyd yn Atodiad Cyfrinachol 1 a dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro er mwyn trafod a dirwyn i ben yr holl agweddau ar y cytundeb terfynol â | ben diddordeb lesddeiliad mewn tir dan feddiant y Cyngor yn y Sgwâr Canolog. | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET : 17/18-8

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | Llywodraeth Cymru a'r datblygwr ar gyfer darparu'r Orsaf Fysus Ganolog newydd.<br><br>(2) Cymeradwyo'r broses o ddirwyn y diddordeb lesddeiliad i ben yn y darn o dir a farciwyd yn goch a phrynu'r darn o dir a farciwyd yn las ar y cynllun safle yn Atodiad 2 er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu'r Orsaf Fysus Ganolog newydd yn ôl y telerau a nodwyd yn Atodiad Cyfrinachol 1 ac yn unol â'r prisiad annibynnol a roddwyd yn Atodiad Cyfrinachol 4. | | | | | | |

| | |
|---|---|
| **Paratowyd gan swyddfa'r Cabinet:** | **29 Mawrth** |
| **Cyflwynwyd i'r Prif Weithredwr ar gyfer Llofnod** | **29 Mawrth** |

Cymeradwywyd ar gyfer Cyhoeddi:: *Paul Orders* Prif Weithredwr

Dyddi ad: <Date>